

Busnes Cymru | Business Wales

# TWRISTIAETH GYNALIADWY CYMRU

# PECYN ADNODDAU DŴR


**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales

## PAM MAE EFFEITHLONRWYDD DŴR MOR BWYSIG

P'un a ydych yn gaffi yng Nghaerdydd neu'n fusnes glampio yng Ngwynedd, gall peidio â defnyddio mwy o ddŵr nag sydd ei angen arnoch chi eich helpu i arbed arian a gwella eich cynaliadwyedd. Gyda busnesau twristiaeth mewn rhai ardaloedd yn defnyddio wyth gwaith mwy o ddŵr fesul person, mae'n bwysig ystyried ffyrdd o leihau eich defnydd o ddŵr.





### SIARAD Â'CH TÎM

Gall dull tîm eich helpu i gyflawni eich targedau cynaliadwyedd. Drwy friffio eich cydweithwyr ar eich cynllun gweithredu defnydd dŵr a rhoi diweddariad rheolaidd iddynt, byddwch yn annog perchnogaeth a chynnydd cadarnhaol.

Gofynnwch iddynt awgrymu ffyrdd o reoli eich defnydd dŵr, a chynigwch gymhellion iddynt gymryd rhan.

### SIARAD Â'CH YMWELWYR

Gall codi ymwybyddiaeth o'ch ymrwymiadau amgylcheddol helpu i annog unigolion sy'n ymweld â'ch busnes i newid eu hymddygiad.

- Annog gwesteion i gael cawod yn hytrach na bath
- Gofyn i westeion ddiffodd y tapiau pan nad ydynt yn eu defnyddio
- Gofyn i westeion ail-ddefnyddio tyweli a llieiniau
- Egluro wrthynt sut mae eich gwesty yn lleihau'r defnydd o ddŵr
- Gofyn am adborth

## Dyma ein pum prif awgrym i'ch helpu i leihau defnydd dŵr eich busnes.

### 1 Gosodwch fesurydd dŵr

Yn ôl Dŵr Cymru, mae busnesau'r DU, ar gyfartaledd, yn defnyddio 30% yn fwy o ddŵr na'r angen. Mae gosod mesurydd dŵr yn golygu eich bod ond yn talu am yr hyn rydych yn ei ddefnyddio, ac mae'n golygu y gallwch fonitro defnydd dŵr yn fwy effeithiol.

### 2 Gwiriwch am ollyngiadau

Mae tua 70% o ddŵr sy'n cael ei golli o ollyngiadau'n dod o bibelli dŵr. Nodwch bopeth sy'n defnyddio dŵr o fewn eich busnes - eich tapiau, toiledau, pibellau a pheipiau dŵr, er mwyn gwneud yn siŵr nad ydych yn colli unrhyw beth. Os ydych yn dod o hyd i ollyngiad, rhaid ichi ei drwsio cyn gynted â phosibl oherwydd fe all fod yn gostus i chi yn yr hirdymor.

### 3 Ystyriwch eich defnydd y tu allan

Mae pibellau dŵr yn adnabyddus am ddefnyddio lefel uchel o ddŵr, felly mae'n bwysig ystyried ffyrdd o leihau eich defnydd y tu allan. Beth am gyflwyno casgenni dŵr neu danc dŵr glaw i gynaeafu dŵr ffo o'r cwteri. Gallwch ddefnyddio hyn wedyn ar eich planhigion/gerddi.

### 4 Drip, drip, drip

A wyddoch chi fod tap sy'n diferu'n gallu gwastraffu dros 5000 litr y flwyddyn. Os ydych chi'n amau bod gollyngiad yn rhywle, darllenwch y mesurydd yn y bore ac eto wedyn gyda'r nos i weld faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio pan nad ydych o gwmpas.

### 5 Edrychwch ar yr offer

Mewn ystafelloedd ymolchi, gall pethau fel mesurau rheoli fflysio troethfeydd arbed tua 70% o ddŵr, ond efallai nad yw hyn yn gwbl addas ar gyfer busnesau. Gallech ystyried awyryddion ar gyfer tapiau a chawodydd, lleihau eich pwysedd dŵr a chynnal a chadw tapiau.

## OPSIYNAU CYLLIDO

Mae nifer o fanciau'n cynnig cyllid busnes gwyrdd gyda gwahanol feini prawf a benthyciadau o wahanol symiau. Mae ein hymgynghorwyr effeithiolrwydd adnoddau ar gael i drafod eich anghenion gyda chi. Dyma restr fer o ble i gael mynediad at gyllid:

- Banc Datblygu Cymru
- Banc Busnes Prydain
- Cronfa BBaCh Gwyrdd HSBC
- NatWest – Benthyciadau Gwyrdd
- Benthyciad Gwyrdd Barclays
- Benthyciad Busnes Cynaliadwy Virgin Money

## TOP SAVING MEASURES

**1**

Gall tapiau chwistrell arbed hyd at **50%** fesul safle

**2**


Gall awyrydd cawod arbed hyd at **50%** fesul safle

**3**


Gall argae tanc dŵr arbed hyd at **30%** fesul safle

## OPSIYNAU PRYNU


Gallwch brynu casgenni dŵr ac ategolion o siopau crefft lleol. Mae gan rai Awdurdodau Lleol gynlluniau prynu ar gael hefyd.



Mae awyryddion tapiau ar gael i'w prynu o ystod o siopau DIY lleol am gyn lleied ag £8 fesul tap.



Ar gyfer mesurau arbed dŵr yn yr ystafell ymolchi, gallwch brynu mesurau rheoli fflysio troethfeydd am tua £170. Mae'r rhain ar gael yn y rhan fwyaf o siopau plymio.



## ADNODDAU AR GAEL

www.businesswales.gov.wales/cy/lleihau-defnydd-dwr

www.business.dwrcymru.com/cy-gb/help-advice/water-efficiency

sustainablehospitalityalliance.org/wp-content/uploads/2021/06/Water-factsheet.pdf (Saesneg yn unig)

www.developmentbank.wales/cy/cynaliadwyedd

british-business-bank.co.uk/finance-hub/business-guidance/sustainability/green-loans-for-smaller-businesses (Saesneg yn unig)

business.hsbc.uk/en-gb/solutions/green-sme-fund (Saesneg yn unig)

natwest.com/business/loans-and-finance/sustainable-finance/green-loans.html (Saesneg yn unig)

barclays.co.uk/business-banking/borrow/green-loan (Saesneg yn unig)

uk.virginmoney.com/brighter-money/business-loans-future-is-green (Saesneg yn unig)

**Os hoffech chi gael rhagor o gymorth wrth gyflwyno mesurau arbed dŵr i'ch busnes, cysylltwch â'n tîm heddiw.**

**03000 6 03000**

busnescymru.llyw.cymru
businesswales.gov.wales